Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – tanau gwyllt

22 Hydref 2026

<u>Eitem 4 ar yr Agenda – Achosion uniongyrchol tanau gwyllt, ymddygiad dynol a materion iechyd</u>

Atal y gweithredoedd sy'n cynnau tanau gwyllt yng Nghymru

Mae'r papur hwn yn cynnwys pwyntiau allweddol i gefnogi trafodaeth o dan eitem 4 ar yr agenda ac yn ystyried sut y gellir atal y gweithredoedd sy'n cynnau tanau gwyllt yng Nghymru a sut gellir lleihau'r effeithiau ar iechyd pan fydd tanau'n digwydd. Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol feddwl am y materion a godir a nodi camau ymarferol y gellir eu rhoi ar waith ar ôl yr Uwchgynhadledd. Wrth wneud hynny, anogir y rhai sy'n bresennol i adeiladu ar weithgarwch, partneriaethau ac arferion da sydd eisoes ar waith ledled Cymru a'r tu hwnt, gan helpu i osgoi dyblygu a chefnogi dull gweithredu cydlynol.

Mae tanau gwyllt yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl mewn sawl ffordd, ar ben y **bygythiad uniongyrchol i fywyd** oherwydd y tân. Mae'r mwg yn gallu gwaethygu **cyflyrau anadlol**, atal pobl rhag awyru eu heiddo, creu pryder eang a gwaethygu **iechyd meddwl** pobl. Mae difrod i eiddo a da byw yn gallu effeithio ar **fywoliaeth** pobl, sydd maes o law yn gallu effeithio ar eu hiechyd corfforol a meddyliol yn yr hirdymor. Mae risgiau iechyd posibl hefyd yn gysylltiedig ag **ansawdd dŵr yfed** ar ôl tanau gwyllt, yn enwedig i gymunedau sy'n dibynnu ar gyflenwadau dŵr preifat. Ac ar ôl i dân ddigwydd unwaith, mae'n rhesymol i bobl boeni a allai ddigwydd eto a bod yn waeth y tro nesaf.

Mae bron i'r holl danau gwyllt, ac eithrio nifer bach iawn sy'n cael eu dechrau gan fellt, yn cael eu cynnau oherwydd rhywbeth mae person wedi'i wneud (ee cynnau maleisus, neu losgi cyfreithlon gan dirfeddianwyr yn mynd allan o reolaeth) neu esgeulustod (ee gwaredu deunyddiau ysmygu neu danwydd barbeciw yn ddiofal). **Mae hyn yn golygu bod modd osgoi bron i bob tân gwyllt – a'i effaith ar bobl a natur.**

Mae'r risg o gynnau esgeulus yn cynyddu'n sylweddol yn ystod yr adegau prysuraf o ran twristiaeth a hamdden awyr agored, gan gynnwys tywydd crasboeth yr haf yma.

<u>Mesurau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a hyrwyddo newid ymddygiad</u>

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried y ffordd orau i ni, rhyngom, godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r canlynol:

i. effeithiau tanau gwyllt ar fywydau pobl ac anifeiliaid (gan ei sefydlu fel mater 'Iechyd Cyfunol'), a'r
ii. gweithgareddau a allai gynnau tanau gwyllt; a hyrwyddo a chefnogi newid ymddygiad.

Fel rhan o hyn, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried pa rôl ehangach y gallai addysg a chyfathrebu ei chwarae i gyrraedd cynulleidfa iau yn ogystal ag ymgyrchoedd tymhorol. Yn benodol, gofynnir am farn y rhai sy'n bresennol am effeithiolrwydd **cynlluniau ymyriadau ieuenctid ac ymgysylltiad ag ysgolion** sydd eisoes ar waith, a lle gallai dull amlasiantaeth ategu a chryfhau canlyniadau.

Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – tanau gwyllt

22 Hydref 2026

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried posibilrwydd **ymgyrchoedd atal amlasiantaeth cyn y gwanwyn/haf nesaf sy'n defnyddio dulliau newid ymddygiad**, a fyddai o bosibl yn gallu cyd-fynd â gwaith cysylltiedig sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y DU.

Gan fod llawer o gymunedau a thirfeddianwyr yng Nghymru bellach wedi cael profiad eang yn ddiweddar o danau gwyllt ar eu tir ac wrth ymyl eu cartrefi, gan effeithio ar eu bywydau, gofynnir i'r rhai sy'n bresennol ystyried a ddylem **ddefnyddio'r profiad bywyd hwnnw i atgyfnerthu ein negeseuon i'r cyhoedd**, a sut dylem wneud hynny.

Rheoleiddio gweithgareddau risg uchel

Ym mis Awst eleni, roedd Llywodraeth y DU wedi gwahardd gwerthu barbeciws tafladwy (sy'n dal mewn grym), fel ffordd o leihau'r risg bod tanau gwyllt yn dechrau'n ddamweiniol neu drwy esgeulustod. Nid yw hynny na mesurau tebyg i ddiogelu defnyddwyr a gwerthu nwyddau wedi'u datganoli; fodd bynnag, gallai fod yn bosibl **rheoleiddio, cyfyngu ar neu wahardd gweithgareddau risg uchel mewn ardaloedd risg uchel** yng Nghymru. Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei fabwysiadu ers tro mewn gwledydd eraill fel Canada, lle mae "gwaharddiadau tân" (sy'n berthnasol i bob math o losgi yn yr awyr agored) yn cael eu gosod fel mater o drefn mewn parciau cenedlaethol a thaleithiol dros fisoedd yr haf. Fodd bynnag, mae hynny wedi bod yn wir ers blynyddoedd lawer, ac erbyn hyn mae gwaharddiadau o'r fath yn cael eu deall, eu derbyn a'u dilyn yn eang gan bobl Canada. Byddai eu cyflwyno am y tro cyntaf yma yn codi materion ymwybyddiaeth a gorfodaeth – yn ogystal â chyfyngiadau ar ddewis personol.

Atal, dargyfeirio ac erlyn

Yn hanesyddol – ac yn ddigon posibl yr haf yma – mae llawer o danau gwyllt yng Nghymru wedi cael eu cynnau'n fwriadol ac yn faleisus. Credir ers tro byd bod plant a phobl ifanc yn arbennig o agored i ymddygiad o'r fath; ac roedd rhywfaint o dystiolaeth o hynny ar y cyfryngau cymdeithasol yr haf yma.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn darparu rhaglenni sy'n codi **ymwybyddiaeth o'r risgiau o danau gwyllt** ymysg pobl ifanc, a (i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu) **rhaglenni mwy dwys sy'n hyrwyddo newid ymddygiad cadarnhaol**. Efallai y bydd y rhai sy'n bresennol eisiau meddwl a oes potensial i'r Gwasanaeth a phartneriaid eraill ehangu'r gwaith hwn.

Yn gyffredinol mae cynnau tân gwyllt yn fwriadol (neu unrhyw dân, ac eithrio tân ar eich eiddo eich hun) yn llosgi bwriadol ac mae modd cyhuddo ac erlyn rhywun am hynny. Er nad yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, efallai fod y rhai sy'n bresennol eisiau meddwl am unrhyw gamau a allai **hwyluso'r gwaith o ganfod ac erlyn troseddwyr**.

Uwchgynhadledd Newid Hinsawdd a Gwydnwch Cymru – tanau gwyllt

22 Hydref 2026

Lleihau effeithiau tanau gwyllt ar iechyd

Mae atal dod i gysylltiad â mwg tanau gwyllt yn seiliedig ar gyngor iechyd cyhoeddus i gysgodi ac mae hynny'n seiliedig ar dystiolaeth, ond mae hyn yn gallu bod yn anodd pan fydd mwg dros ardal am gyfnod hir.

Rydym wedi clywed bod rhai canfyddiadau'r haf yma bod y cyngor i gysgodi adeg tanau gwyllt yn groes i'r cyngor i reoli dod i gysylltiad â gwres. Mae'r cyngor ar leihau effeithiau mwg a gwres tanau gwyllt ar iechyd ar yr un ffurf, hy cadw drysau a ffenestri ar gau pan fydd mwg o gwmpas / yn ystod rhan boethaf y dydd a'u hagor eto pan fydd y mwg yn pasio / pan fydd hi'n dechrau oeri. Fodd bynnag, mae'n gallu bod yn anodd dilyn y cyngor hwn weithiau, er enghraifft os bydd mwg yn setlo yn y cymoedd gyda'r nos.

Gofynnir i'r rhai sy'n bresennol feddwl sut gallwn ni gynnwys cymunedau mewn camau gweithredu i'w paratoi'n well cyn tanau gwyllt a **lleihau'r effeithiau ar iechyd** pan fydd tanau gwyllt yn digwydd, gan gynnwys yn ystod tywydd crasboeth.